



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Ymgynghoriad Safle Ysbyty Newydd: Dogfen Ymgynghori Gryno



Amdanom ni

Ni yw eich sefydliad GIG lleol. Rydym yn cynllunio, yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer bron i 400,000 o bobl ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, a hynny drwy'r canlynol:

► Pedwar prif ysbyty

Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin, Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli ac Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlffordd

► Pum ysbyty cymunedol


Ysbyty Dyffryn Aman ac Ysbyty Llanyddyfri yn Sir Gaerfyrddin, Ysbyty Tregaron yng Ngheredigion, Ysbyty Dinbych-y-pysgod a Chanolfan Adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol De Sir Benfro yn Sir Benfro

► Dwy ganolfan gofal integredig

Aberaeron ac Aberteifi yng Ngheredigion

► Cyfleusterau cymunedol,

gan gynnwys:



48

Meddygfa



49

Deintyddfa



98

Fferyllfa Gymunedol



44

Practis Offthalmig
Cyffredinol

(gan gynnwys gwasanaethau
iechyd llygaid a golwg gwan)



38

safle yn darparu
gwasanaethau
iechyd meddwl ac
anableddau dysgu



Gofal yn eich
cartref eich hun

Trefnir gwasanaethau tra arbenigol, megis rhai triniaethau trawma mawr, gofal cardiaidd (y galon), a llosgiadau cymhleth, drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Gellir darparu'r gwasanaethau hyn y tu allan i ffiniau ein hardal, er enghraifft yn Abertawe neu Gaerdydd.

Beth yw'r ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi tri safle posibl ar gyfer Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd yn ne ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – dau safle ger Hendy-gwyn ar Daf ac un ger Sanclêr. Gallwch ddarllen mwy am y safleoedd o dudalen 12 y ddogfen hon.

Nid ydym yn ffafrio safle ac nid ydym wedi prynu unrhyw safle na thir ar gyfer y datblygiad hwn. Mae prynu safle ac agor Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio arno yn amodol ar gyllid Llywodraeth Cymru, sydd heb ei gadarnhau eto ac os bydd yn llwyddiannus, byddai'n cymryd sawl blwyddyn i'w gyflawni.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithio gyda chi, ein cymunedau, i baratoi a darparu'r gwasanaethau iechyd a gofau gorau posib.

Fel rhan o hyn, rydym yn ymgynghori â holl aelodau'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio, neu sydd â diddordeb yn ein hardal, yn ogystal â sefydliadau sy'n gweithio ym maes iechyd a llesiant neu sydd â diddordeb ynddo, ar y safleoedd posibl ar gyfer yr ysbyty newydd. Efallai eich bod yn defnyddio ein gwasanaethau, yn ofalwr i rywun sy'n eu defnyddio, neu'n gweithio gyda ni fel staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr. Beth bynnag fo'ch diddordeb mewn iechyd a llesiant, rydym am glywed gennych.

Mae holiadur gyda'r ddogfen hon er mwyn casglu eich barn, neu gallwch fynd ar-lein ar wefan yr ymgynghoriad **biphdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd** neu ffonio **0300 303 8322** (pris galwad leol).

Rydym yn gofyn hyn i chi:

- Pa un o dri safle posibl yw'r lleoliad gorau ar gyfer ein hysbyty newydd a pham
- Pryderon a allai fod gennych am unrhyw un o'r tri safle posibl, fel y gallwn fod yn ymwybodol ohonynt ac osgoi, lleihau neu fynd i'r afael ag unrhyw effaith os yn bosibl
- Unrhyw beth arall y credwch sydd angen i ni ei ystyried, edrychwn ymlaen at glywed unrhyw syniadau newydd sydd gennych

Rydym eisoes wedi penderfynu'r canlynol:

- Y tri safle yr ydym yn ymgynghori arnynt
- Y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau a strwythur y rhwydwaith ysbytai y cytunwyd arnynt yn ein strategaeth iechyd a gofal, Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach, sydd i'w weld ar ein gwefan. Dyma grynodedb:
 - Rhwydwaith o gyfleusterau iechyd a gofal cymunedol a gefnogir gan fwy o ofal yn y gymuned
- Tri phrif ysbyty:
 - Ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio mawr newydd wedi'i leoli'n ganolog rhywle rhwng Arberth a Sanclêr
 - Ysbyty Bronglais, Aberystwyth
 - Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli
- Dau ysbyty'n cael eu haddasu at ddibenion gwahanol – Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelyg – a fydd yn cynnig ystod o wasanaethau cymunedol

Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar y ffordd ymlaen, bydd aelodau'r Bwrdd yn ystyried y cyfan y maent wedi'i glywed yn arwain at, ac yn ystod, yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd, a fydd yn ystyried sut y gallai pobl gael eu heffeithio a beth sydd angen ei wneud i leihau effeithiau negyddol. Byddant hefyd yn ystyried unrhyw wybodaeth newydd a allai ddod i'r amlwg o ganlyniad i'r ymgynghoriad neu waith technegol a masnachol parhaus.



Cymryd rhan

Ein nod yw cynnal digwyddiadau a gweithdai galw heibio, mewn person ac ar lwyfannau digidol, a byddwn yn rhannu diweddariadau rheolaidd ar ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol (gweler y manylion isod). Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r cyfryngau lleol gan gynnwys radio lleol a sefydliadau'r wasg.

Cymerwch yr amser i ddarllen y ddogfen hon. Mae mwy o wybodaeth neu fersiynau gwahanol megis ieithoedd eraill ar gael ar ein gwefan.


Gallwch rannu eich barn â ni yn y ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r holiadur sydd gyda'r ddogfen hon a'i bostio i: **Opinion Research Services, FREEPOST SS1018, PO Box 530, Abertawe, SA1 1ZL** (nid oes angen stamp)
- Ar-lein yn: **biphdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd**
- Mewn ebost: **hyweldda.engagement@wales.nhs.uk**
- Siarad â ni yn un o'n digwyddiadau (trowch at y wefan uchod i ganfod digwyddiad sy'n lleol i chi neu ddigwyddiad ar-lein), neu dros y ffôn **0300 303 8322** (pris galwad leol)
- Ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio **#SafleYsbytyHywelDda**

 Twitter **@BIHywelDda**


 Facebook **@SafleYsbytyNewyddHywelDdaNewHospitalSite**

Y dyddiad cau i ddweud eich dweud, fel y gellir cynnwys eich barn yn yr ymgynghoriad yw 19 Mai 2023.



Teulu Jones - ein teulu darluniadol

Mae gennym deulu – **Teulu Jones** – sy'n ein helpu i brofi a dangos sut y gallai gwasanaethau iechyd gwahanol effeithio ar rywun fel chi. Nid ydynt yn deulu go iawn, ond maent wedi'u cynllunio i fod yn nodweddiadol o'r cleifion rydym yn gofalu amdanynt yn ardal Hywel Dda. Byddwch yn darllen yn y ddogfen hon sut y gallai gofal ysbyty weithio i wahanol aelodau o'r Teulu Jones yn y dyfodol. Gobeithiwn y bydd y rhain yn eich helpu i feddwl am sut y gallai Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd yn un o'r lleoliadau rydym yn ymgynghori yn eu cylch weithio i chi.



Beth yw'r heriau ar hyn o bryd?

Rydym yn rhannu'r un weledigaeth â'n cymunedau - i ni oll fyw bywydau iach a llawen. Rydym yn cydnabod na fydd ein gwasanaethau iechyd, fel y maent yn cael eu trefnu ar hyn o bryd, yn gwireddu'r weledigaeth honno'n effeithiol a disgrifiwn rai o'r heriau isod.

Ers 2017, rydym wedi bod yn siarad â chi gydag ymgysylltiad rheolaidd am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal, ac fe wnaethom ymgynghori â chi yn 2018 yn yr ymgynghoriad Trawsnewid Ein Gwasanaeth Iechyd, a gallwch gael rhagor o wybodaeth am hynny drwy fynd i'n gwefan biphdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd ac ymweld â dolenni defnyddiol yn yr adran Dogfennau Technegol.

Yn ymgynghoriad 2018, fe wnaethom ofyn i chi am ofal yn y gymuned a gofal mewn ysbyty. Fe wnaethom ddysgu bod cael gofal a chymorth lle mae ei angen arnoch yn bwysig a dylai hyn fod mor lleol â phosibl, er eich bod yn deall bod adegau pan fydd yn rhaid i chi deithio i gael gofal. Clywsom hefyd eich bod yn pryderu am deithio a thrafnidiaeth, a sut y byddwch yn cyrraedd ac yn cael mynediad at wasanaethau iechyd yn y dyfodol. Mae hyn yn bennaf oherwydd ein daearyddiaeth a'n hardaloedd anghysbell, ond mae hefyd yn gysylltiedig â sut rydym yn defnyddio technoleg.

Dyma grynodedb o'r heriau:

► Iechyd ein cymunedau

Mae ein poblogaeth yn parhau i dyfu, ac mae angen mwy o gymorth ar bobl i aros yn iach ac yn annibynnol, yn enwedig yn y blynyddoedd hŷn. Mae'r galw ar wasanaethau iechyd a gofal yn cynyddu.



► Gwasanaethau bregus

Mae'r ffordd rydym yn darparu gofal wedi newid mewn 50 mlynedd ac yn ein hardal rydym yn dyblygu gofal ar draws pedwar prif ysbyty, gyda gwahaniaethau yn y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau, diogelwch, ac ansawdd. Mae hyn yn golygu bod ein gwasanaethau yn fregus ac mae'n anodd datblygu rhai gwasanaethau arbenigol yn ein hardal, sy'n golygu bod pobl yn teithio'n bellach ar eu cyfer ac rydym eisieu cyfle i ddatblygu mwy o'r rhain yn lleol.



► Gweithlu

Mae gennym lai o staff na sydd ei angen ac mae ein meddygon yn gweithio mwy o shifftiau (rotas) nag mewn rhai sefydliadau GIG eraill, gan achosi anawsterau i ni o ran cadw a recriwtio staff. Mae hyn yn golygu ein bod yn dibynnu gormod ar staff asiantaeth drud ac oherwydd eu bod yn anghyfarwydd â chanllawiau a gweithdrefnau lleol, ac aelodau eraill o'r tîm, mae hyn yn peri risg o ansawdd gofal gwaeth i chi, a gwasanaethau bregus a allai chwalu.



► Digidol

Ar hyn o bryd nid ydym yn defnyddio cyfleoedd digidol yn llawn i ddiwallu anghenion ein poblogaeth yn y ffordd orau, yn enwedig ar gyfer y rhai y mae'n rhaid iddynt deithio i gael mynediad at wasanaethau. Bydd y dechnoleg ddiweddaraf yn eich helpu trwy eich cysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a monitro eich cyflyrau, a bydd hefyd yn ein helpu i ddenu'r gweithlu gorau.




► Adeiladau a chyfleusterau


Mae ein hadeiladau ysbyty gan gynnwys y rhan fwyaf o Ysbyty Glangwili a rhywfaint o Ysbyty Llwynhelyg yn hen ac angen llawer o waith cynnal a chadw i'w cadw i weithio'n ddiogel. Nid ydynt yn addas i'r diben ar gyfer gofal iechyd modern a gall eu cyflwr olygu profiad gwaeth i gleifion a staff.



► Amgylchedd

Mae ein hen adeiladau a phroblemau eraill megis lefelau uchel o waith cynnal a chadw sydd wedi cronni, systemau inswleiddio a gwresogi gwael, a defnyddio olew fel prif ffynhonnell tanwydd, yn golygu bod gennym rai o'r safleoedd lleiaf effeithlon o ran ynni yng Nghymru.





Pa ysbytai fydd gennym yn y dyfodol?

Rydym yn datblygu cynlluniau i gynnig cyfleusterau cymunedol yn agos at eich cartref ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Byddant yn lleoedd lle gallwch gael profion, gofal a thriniaeth, ac apwyntiadau. Bydd gan rai o'r rhain welyau dros nos, megis Dyffryn Aman a Chylch Caron (Tregaron), Llanymddyfri a De Sir Benfro, ac ni fydd gwelyau mewn rhai eraill, megis Aberaeron ac Aberteifi (eisoed ar agor), Caerfyrddin, Cross Hands, Abergwaun, Hwlfordd, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Aberdaugleddau, Arberth, Neyland, Pentre Awel, Llanelli a Dinbych-y-pysgod.

Er mwyn dod yn system llesol, mae hefyd angen i'n prif ysbytai ddarparu gofal arbenigol o safon na ellir ei ddarparu mewn mannau eraill yn ein cymunedau.

Ar hyn o bryd mae pob un o'n pedwar prif ysbyty yn darparu gwasanaethau meddygol. Maent i gyd hefyd yn darparu adrannau brys, ac eithrio Ysbyty Tywysog Philip, sydd ag Uned Mân Anafiadau dan arweiniad Meddygon Teulu ac Uned Derbyniadau Meddygol Aciwt.

Cytunwyd yn ein hymgyngoriad yn 2018 na fydd llawer o newid i'r ysbytai canlynol:

- Bydd Ysbyty Bronglais yn parhau i ddarparu gwasanaethau brys, gofal mewn argyfwng a gofal wedi'i gynllunio, gydag achosion mwy arbenigol yn cael eu trosglwyddo i'r Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd, yn ogystal â safleoedd rhanbarthol ar gyfer gofal mwy critigol, fel sy'n digwydd yn awr.
- Bydd Ysbyty Tywysog Philip yn parhau i ddarparu gofal mân anafiadau dan arweiniad meddygon teulu, yn ogystal â gofal meddygol aciwt i oedolion gyda chymorth diagnostig. Bydd hyn yn cynnwys gwelyau cleifion mewnol dros nos dan arweiniad meddygon ymgynghorol er mwyn i gleifion dderbyn gofal yn lleol.

Bydd y ddau ysbyty hefyd yn trosglwyddo achosion mwy arbenigol i'r Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd, yn ogystal â safleoedd rhanbarthol eraill ar gyfer gofal mwy critigol, fel sy'n digwydd yn awr.

Y prif newidiadau i ysbytai fydd y canlynol:


- Bydd ysbytai Glangwili a Llwynhelig yn cael eu haddasu i fod yn ysbytai cymunedol. Bydd y ddau yn darparu canolfannau gofal brys 24/7 dan arweiniad meddygon teulu. Bydd ganddynt gyfleusterau ar gyfer gweithdrefnau achosion dydd, yn ogystal â therapi a gwelyau dan arweiniad nyrsys ar gyfer anghenion llai critigol ac adsefydlu. Bydd cymorth diagnostig (pelydr-x, uwchsain ac ati) yn parhau, yn ogystal â chlinigau cleifion allanol a chlinigau eraill.
- Ein Hysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd fydd y prif safle ysbyty ar gyfer gofal brys a gofal wedi'i gynllunio yn ein rhanbarth (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro). Bydd yn darparu gwasanaethau plant, oedolion ac iechyd meddwl arbenigol mewn modd mwy canolog. Bydd yn gweithredu fel ein Huned Trawma a'n prif Adran Achosion Brys.

Manteision cael Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd

Bydd amgylchedd pwrpasol newydd yn ein galluogi i fodloni safonau ar gyfer gofal iechyd modern a gwella profiad y claf a'r staff



Mae mwy o wasanaethau y gallem eu cynnig o ysbyty newydd, o fewn ffiniau Hywel Dda, nad ydym yn gallu eu cynnig ar hyn o bryd (rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer darparu rhai gwasanaethau arbenigol megis radiotherapi, gwasanaethau niwroleg a gwasanaethau cathetreiddio cardiaidd)



Bydd lleihau dyblygu rhai gwasanaethau ar draws safleoedd yn caniatáu i ni'r cwrpas i ddarparu gwell gofal, er enghraifft mynediad at uwch benderfynwyr clinigol yn gyflym (h.y. 24/7)



Y profiad yr ydym wedi'i weld mewn mannau eraill yw bod staff eisiau mynd i weithio mewn ysbytai newydd gan fod ganddynt y cyfleusterau a'r technolegau diweddaraf a gallant ddarparu er llesiant gweithwyr




Byddai hefyd yn caniatáu i ni gynnig rotâu mwy deniadol (er enghraifft llai o oriau anghymdeithasol) i staff meddygol a hyfforddeion, a darparu cyfleusterau addysg iechyd, academiaidd, ymchwil ac arloesi ar y safle, ar gyfer yr holl staff clinigol, gan gynnwys nyrsys a therapyddion



Bydd addasu Glangwili a Llwynhelyg fel ysbytai cymunedol gyda chyfleusterau ar gyfer gofal a gwelyau cam-i-fyny neu gam-i-lawr, a gwasanaethau cymunedol cryfach, yn golygu y byddwn yn rhyddhau'r rhan fwyaf o gleifion o'r Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio i'w cartrefi eu hunain neu i ysbytai mwy lleol, a hynny o fewn 72 awr



Byddai cynllunio a darparu gofal yn wahanol, a chael adeiladau modern ac effeithlon, yn ein cefnogi i leihau ein hól troed carbon ac yn ein helpu i gyrraedd ein targed o leihau allyriadau carbon gan 34% erbyn 2030



Trwy wahanu gofal wedi'i gynllunio a gofal brys yn yr ysbyty newydd, byddwn yn osgoi'r risg y bydd gweithgarwch brys yn effeithio'n negyddol ar ofal wedi'i gynllunio drwy lawdriniaethau yn cael eu canslo



► Teulu Jones

Gareth Jones

Mae Gareth yn 38 oed ac yn byw yn Nhalybont, Ceredigion. Ar ei daith feicio dydd Sadwrn gyda'r 'Wheeler', mae Gareth mewn gwrthdrawiad â char, ger Aberaeron. Mae meddygon o'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru) yn cyrraedd y lleoliad.

Ar hyn o bryd byddent yn mynd â Gareth i Ysbyty Glangwili, sydd 31 milltir i ffwrdd, gan mai dyma'r uned drawma leol dros dro tra byddwn yn aros am Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd.

Yn y dyfodol, pe bai gennym Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio, byddai Gareth yn cael ei gludo'n syth i'r ysbyty hwn. Byddai'r daith i'r ddau opsiwn safle yn Hendy-gwyn tua 36 milltir o leoliad y ddamwain yn Aberaeron, neu 37 milltir i'r safle yn Sanclêr. Mae'r gwahaniaeth mewn amser teithio rhwng y tri safle yn ddibwys ac yn annhebygol o arwain at unrhyw effaith ar amseroldeb i gael mynediad at ofal i Gareth.



Beth fydd yn digwydd os na fyddwn yn newid?

Os fyddwn yn gwneud dim, ni fyddwn yn gallu ymdrin â'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd, na mynd i'r afael â'n problemau o ran cadw a recriwtio staff a gwneud ein gwasanaethau'n fwy sefydlog. Mae hyn yn debygol o arwain at y canlynol:

- amseroedd aros hirach mewn Adrannau Achosion Brys
- mwy o lawdriniaethau mewn ysbytai yn cael eu gohirio
- gwelyau ysbyty annigonol
- colli cyfleoedd i atal salwch neu osgoi dirywiad
- seilwaith a gallu technolegol yn gwaethygu
- mwy o broblemau o ran gallu recriwtio a chadw meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cymwys priodol i ofalu amdanoch
- gwasanaethau bregus, sy'n golygu risg uwch o newidiadau neu doriadau i wasanaethau heb eu cynllunio gyda rhai gwasanaethau neu weithdrefnau meddygol yn dod i ben, a gallai olygu bod cleifion yn teithio ymhellach, hyd yn oed i fyrddau iechyd cyfagos.

Yn bwysicaf oll, byddai gwneud dim yn debygol o olygu'r canlynol:

- safonau diogelwch is
- effaith gwaeth ar iechyd
- cyfraddau goroesi is.

Nid ydym am weld hyn yn digwydd ac mae ein strategaeth yn ceisio newid ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Yr hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn

Ym mis Chwefror 2022, gwnaethom anfon Achos Busnes Rhaglen i Lywodraeth Cymru.

Mae Achos Busnes Rhaglen yn ddogfen lefel uchel, sy'n ceisio sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen fuddsoddi. Gallwch ddarllen y ddogfen lawn drwy fynd i **biphdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd** a gweld dolenni defnyddiol yn yr adran Dogfennau Technegol.

Mae datblygiad ein hysbyty newydd yn amodol ar y cymorth hwn gan Lywodraeth Cymru, a phe na bai cyllid yn cael ei gytuno, ni fyddem yn gallu prynu'r safle ar gyfer yr ysbyty newydd.

Mae ein Hachos Busnes Rhaglen yn ceisio'r buddsoddiad mwyaf mewn iechyd a llesiant y bydd gorllewin Cymru erioed wedi'i weld, tua £1.3biliwn. Mae'n adeiladu ar ein haddewid i ddod â chymaint o ofal â phosibl yn nes atoch, gan gynnwys adeiladu neu ddatblygu nifer o gyfleusterau cymunedol (wedi'u rhestru ar dudalen 7), addasu ysbytai Llwynhelyg a Glangwili at ddibenion gwahanol, adnewyddu Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Tywysog Philip, yn ogystal ag adeiladu Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd.

Os bydd yn llwyddiannus yn y cam cyntaf hwn, yna mae tri cham pellach, a allai gymryd sawl blwyddyn, i sicrhau'r buddsoddiad eithaf sydd ei angen i ddarparu'r cyfleusterau a restrir ar dudalen 7. Rydym wedi penderfynu ymgynghori â chi ar y safle posibl ar gyfer Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd yn awr, cyn cael buddsoddiad, oherwydd ein bod wedi ymrwymo i ymgysylltu'n barhaus â chi ac oherwydd bod ein gwasanaethau'n fregus, ac ni allwn golli amser wrth gyflawni ein gweledigaeth.

Archwilio safleoedd posibl ar gyfer ysbyty newydd - yr hyn a ddysgom ac a wnaethom

Cytunwyd ar barth daearyddol cyffredinol yr ysbyty newydd – rhwng Arberth a Sanclêr – oherwydd dyma'r ardal a fyddai'n golygu bod y rhan fwyaf o'n poblogaeth o fewn awr i adran achosion brys (naill ai yn yr ysbyty hwn, Ysbyty Bronglais, Aberystwyth neu Ysbyty Treforys, Abertawe).

Rydym wedi gwneud llawer o waith i gyfyngu ar yr opsiynau ar gyfer lleoliadau penodol:

- Fe wnaethom edrych am safleoedd a gofyn i chi am enwebiadau safle o fewn y parth yn ystod ymarfer ymgysylltu yn haf 2021, o'r enw Adeiladu Dyfodol lachach ar ôl COVID-19. Gyda'n gilydd, nodwyd 11 o safleoedd posibl. Fe wnaethom hefyd ofyn i chi beth oeddech chi'n meddwl oedd yn bwysig i ni ei ystyried wrth lunio rhestr fer o safleoedd
- Mae cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y cyhoedd, staff ac arbenigwyr wedi ein helpu ar wahanol gamau i gynnal y broses arfarnu tir a gwerthuso pob un o'n safleoedd posibl. Ar y pryd galwyd y pum safle ar y rhestr fer yn safle C Hendy-gwyn ar Daf, safle J Sanclêr, safle 12 Hendy-gwyn ar Daf, safle 17 Sanclêr a safle 7 Arberth



■ Edrychodd pedwar 'grŵp arfarnu tir' ar y pum safle o safbwynt ystyriaethau clinigol, ystyriaethau ariannol ac economaidd, ystyriaethau gweithlu ac ystyriaethau technegol, gan gynnwys yr hyn a oedd yn bwysig i'r cyhoedd. Gallwch ddarllen adroddiadau manylach o bob un ohonynt drwy fynd i'n gwefan **biphdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd** ac edrych ar yr adran Dogfennau Technegol (fe'u gelwir yn Adroddiadau Allbwn Arfarnu Technegol).

Yng Nghyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd ar 4 Awst 2022, clywodd aelodau'r Bwrdd lechyd holl allbynnau'r grwpiau arfarnu tir. Yn y cyfarfod hwn, dywedodd y Bwrdd y dylai dau safle yn Hendy-gwyn ar Daf (safleoedd 12 a C) ac un o'r safleoedd yn Sanclêr (safle 17) barhau i gael eu hystyried a chytunwyd yn unfrydol i ymgynghori â'r cyhoedd ar y safleoedd hyn.

Dyma'r safleoedd a ddiystrowyd a pham:

■ Sanclêr (safle J) - Y safle hwn oedd â'r sgôr risg uchaf yn seiliedig ar nodweddion y safle megis anawsterau gyda mynediad brys i'r safle a bod yn fwy pellennig o ganol tref. Sgoriodd hefyd dipyn yn is na'r safleoedd eraill yn y broses arfarnu technegol gyda'r cyhoedd.

■ Arberth (safle 7) – Roedd gan y grwpiau gwerthuso clinigol bryderon am y safle hwn, oherwydd ei fod ymhellach i'r gorllewin. Roeddent yn pryderu y gallai'r safle hwn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n dewis cael eu babanod yn Hywel Dda, yn hytrach nag ymhellach i'r dwyrain, a allai hefyd effeithio ar ofal newyddenedigol a phediatrig. Gallai hyn achosi risg i'r swm critigol o weithgarwch sydd ei angen i gadw gwasanaethau'n ddiogel ac yn gynaliadwy. Gallai hefyd gael effaith negyddol ar nifer y gwelyau a gedwir ac ar gadw statws hyfforddai, sef ein gallu i hyfforddi meddygon, nyrsys, a bydwagedd.

► Teulu Jones



Rhys Jones

Mae Rhys yn 52 oed, mae'n byw ger y Tymbl, ger Llanelli ac mae'n yrrwr lori pellter hir. Mae angen llawdriniaeth orthopaedig ar ei ben-glin, sydd wedi bod yn achosi problemau iddo. Ar hyn o bryd byddai ei lawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli. Mae'n bosib y bydd y llawdriniaeth yn cael ei gohirio cwpl o weithiau oherwydd argyfyngau a phroblemau staffio, ond mae'n cael y llawdriniaeth ar ôl aros am 18 mis. Mae'n ei chael hi'n anodd mynychu ffisiotherapi dilynol yn ysbyty Llanelli yn yr wythnosau ar ôl y llawdriniaeth, wrth iddo gael trafferth cael aelod o'r teulu i'w yrru yno.


Pan fydd yr Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd ar agor, byddai Rhys yn cael ei lawdriniaeth yno. Byddai ei lawdriniaeth yn llai tebygol o gael ei gohirio gan eu bod wedi dylunio'r ysbyty fel bod gofal brys a gofal wedi'i gynllunio yn cael eu darparu mewn gwahanol ardaloedd. Yn dilyn y llawdriniaeth, byddai Rhys yn cael ffisiotherapi mewn cyfleuster iechyd cymunedol ger y Tymbl. Nid oes rhaid iddo fynd yn ôl i'r Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio gan fod ganddo apwyntiad dilynol gyda'r ymgynghorydd ar-lein gan ddefnyddio ei gyfrifiadur.



Opsiynau safle yn yr ymgynghoriad hwn

Mae'r tri safle posibl o fewn ardal ddaearyddol fach yn ne ardal Hywel Dda, yn Sir Gaerfyrddin ac yn agos at ffin Sir Benfro:

► **Hendy-gwyn ar Daf, Gerddi'r Ffynnon** (safle 12 gynt) Mae'r safle hwn ychydig i'r gogledd-ddwyrain o ganol Hendy-gwyn ar Daf. Mae rhwng yr A40 i'r gogledd, cae rygbi Hendy-gwyn ar Daf i'r dwyrain a chartrefi Gerddi'r Ffynnon i'r de.



► **Hendy-gwyn ar Daf, Tŷ Newydd** (safle C gynt) Mae'r safle hwn yn rhan o Fferm Tŷ Newydd. Mae'r safle i'r dwyrain o hen hufenfa Hendy-gwyn ar Daf. Mae canol y dref a ffordd yr A40 lai na milltir i'r gogledd o'r safle



► **Sanclêr** (safle 17 gynt) Mae'r safle hwn yn dir ar hen gaeau Bryncaerau, ger cyffordd yr A40 a'r A477 yn Sanclêr. Mae'r A4066 Ffordd Dinbych-y-pysgod i'r de, pentref Pwll Trap i'r gogledd, a'r A40 i'r gorllewin.



Mae'r tri safle yn debyg mewn sawl ffordd:

- Maent i gyd yn ddigon mawr ar gyfer yr ysbyty newydd ac maent i gyd ar dir amaethyddol
- Maent i gyd yn cael eu hystyried yn dir glas, sy'n golygu nad ydynt wedi'u datblygu a bod gwerthusiad wedi canfod eu bod i gyd yn addas i'w datblygu
- Bydd yn rhaid dilyn prosesau cynllunio tref manwl ar gyfer unrhyw safle a ddewisir, ond nid yw adborth hyd yma wedi nodi unrhyw faterion cynllunio arwyddocaol
- Maent i gyd yn agos at drefi bach gyda darpariaethau lleol tebyg megis siopau, ysgolion, tai ac ati
- Byddai'r trefi a'r ardaloedd lleol yn gweld budd economaidd o gael ysbyty cyfagos, ond ni lwyddwyd i benderfynu a fyddai hyn yn wahanol fesul safle o ystyried pa mor agos ydynt
- Maent i gyd o fewn y parth gwreiddiol ar gyfer yr ysbyty newydd, rhwng ac yn cynnwys Arberth a Sanclêr
- Cydnabyddir bod llif traffig i ysbytai yn ein cymunedau yn drymach yn ystod misoedd yr haf. Oherwydd pa mor agos yw'r safleoedd i'w gilydd, mae hyn yn ystyriaeth gyffredin ar gyfer ein holl safleoedd
- Gwasanaethir Hendy-gwyn ar Daf a Sanclêr (ac felly'r tri safle) gan lwybrau bysiau sy'n cysylltu Hwlfordd a Chaerfyrddin. Byddai angen mwy o wasanaethau bws ar bob safle i gysylltu cymunedau. Byddai angen gwasanaethau amlach, yn rhedeg dros gyfnodau hwy o'r dydd, i weddu i anghenion gweithwyr sifft ac ymwelwyr
- Mae nwy, trydan a dŵr ar gael i bob un o'r safleoedd, ond byddai angen uwchraddio sylweddol
- Byddai angen gwella ffyrdd lleol a rheoli traffig ar bob safle hefyd, ond mae gan bob un ohonynt botensial ar gyfer mwy nag un mynediad
- Amcangyfrifir y bydd y gost o adeiladu'r ysbyty newydd yr un fath ar bob safle (amcangyfrif £736.9m) ond mae rhai costau ychwanegol i sicrhau neu addasu pob safle (gweler y tab ar y dudalen nesaf). Gallwch hefyd weld mwy o fanylion am hyn drwy fynd i'n gwefan **biphdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd** i'r adran Dogfennau Technegol, enw'r adroddiad yw Crynodeb Cost Safle
- Ar gyfer pob safle gallem ddylunio'r adeiladau i wneud y gorau o olau'r haul a'r amgylchedd naturiol, nid yn unig yn y mannau awyr agored ond o fewn yr adeiladau eu hunain (dyluniad bioffilig, a drafodir ymhellach ar dudalen 18)
- Mae dyhead i bob safle gael ei gefnogi gan 'greu lleoedd', sef proses o greu lleoedd o safon y mae pobl eisiau byw, gweithio, chwarae a dysgu ynddynt
- Nid yw'r safleoedd o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig ac nid oes angen gwaith ychwanegol arnynt o ran atal llygredd ffosffad
- Ni ddangosodd adolygiad hanesyddol nac adolygiad bwrdd gwaith o'r holl safleoedd unrhyw ffynonellau halogi sylweddol
- Ni ellir diystyru effeithiau amgylcheddol posibl ar unrhyw un o'r safleoedd ar hyn o bryd ac felly mae'n debygol y byddai angen Asesiad Effaith Amgylcheddol statudol ar bob un ohonynt i gefnogi cais cynllunio.

Oherwydd y tebygrwydd rhwng y safleoedd, canfu grwpiau o bobl a oedd yn eu hystyried o safbwyntiau penodol (gweler y bennod gynharach ar 'Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn') fod y gwahaniaethau rhyngddynt yn aml yn rhy fach i gael effaith ar argymhellion safleoedd:

- Roedd grŵp yn edrych ar wybodaeth dechnegol am y safleoedd, eu nodweddion a'r hyn yr oedd ein cyhoedd yn ei feddwl oedd yn bethau pwysig i'w hystyried. Sgoriodd Gerddi'r Ffynnon, Hendy-gwyn ar Daf 373, sgoriodd Tŷ Newydd, Hendy-gwyn ar Daf 366 a sgoriodd Sanclêr 372.
- Yn yr un modd, nid oedd y sgoriau a roddwyd gan arbenigwyr technegol ar gyfer y risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol safleoedd yn sylweddol wahanol, gyda sgôr o 145 ar gyfer Gerddi'r Ffynnon Hendy-gwyn ar Daf, 145 ar gyfer Sanclêr, a 144 ar gyfer Tŷ Newydd, Hendy-gwyn ar Daf.
- Ychydig o wahaniaeth a ganfu'r grŵp gweithlu rhwng y safleoedd o ran recriwtio ac effeithiau ar gynnal gweithlu.

- Canfu'r grŵp cyllid ac economaidd, tra bod gwahaniaethau mewn costau cyfalaf (a amlinellir yn y tabl ar dudalen 14), roedd llai na 2% o wahaniaeth yng nghostau amcangyfrifedig cyffredinol y datblygiad.

Trwy'r broses dewis tir ar gyfer ein Hysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd, fe wnaethom ymgysylltu â'n timau clinigol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys proses i nodi pa wasanaethau clinigol a chymorth y gallai lleoliad penodol yr ysbyty newydd o fewn ardal o'r parth y cytunwyd arno rhwng ac yn cynnwys Arberth a Sanclêr (h.y. naill ai ymhellach i'r dwyrain, canol neu orllewin) effeithio ar eu hyfywedd ar gyfer darparu gwasanaethau. Arweiniodd yr ymarfer hwn, ynghyd ag ymrwymiad blaenorol gan ein Bwrdd Iechyd i archwilio ymhellach i effaith ysbyty newydd ar wasanaethau menywod a phlant, at ddau werthusiad clinigol, sef:

- Gwasanaethau strôc
- Gwasanaethau gofal pediatrig, obstetrig a newyddenedigol

Canfu'r grŵp arbenigol clinigol ar gyfer gwasanaethau strôc y byddai unrhyw un o'r ardaloedd yn y parth yn addas ar gyfer Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd oherwydd y ffocws ar sut mae cleifion yn cael eu trin y tu hwnt i'w derbyniad i ysbyty. Roedd y grŵp arbenigol ar gyfer obstetreg, gwasanaethau newyddenedigol a phediatreg o'r farn bod gwahaniaeth i'r gwasanaethau o ran lleoliad yr

ysbyty o fewn gwahanol rannau o'r parth. Isod, rydym yn darparu'r nodweddion gwahanol rhwng y safleoedd gan gynnwys y safbwynt clinigol hwn. Gallwch ddarllen adroddiadau manylach am bob safle drwy fynd i'n gwefan **biphdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd** ac edrych ar y Dogfennau Technegol o'r enw Adroddiadau Bwrdd Cyhoeddus 4 Awst 2022.

Maen prawf	Hendy-gwyn ar Daf: Gerddi'r Ffynnon (safle 12 gynt)	Hendy-gwyn ar Daf: Tŷ Newydd (safle C gynt)	Sanclêr (safle 17 gynt)
Safbwynt clinigol newyddenedigol, obstetreg, pediatreg	Peth risg efallai na fydd canllawiau cenedlaethol ar isafswm nifer y cleifion sy'n cael eu trin yn cael eu bodloni, a allai effeithio ar ansawdd a diogelwch, a recriwtio a chadw staff		Y risg lleiaf i ganllawiau ar isafswm nifer y cleifion sy'n cael eu trin
Amser teithio i Adran Damweiniau ac Achosion Brys (cyfartaledd o gymharu â nawr)	9 munud yn hirach (ar gyfartaledd) Byddai gan 7% o'r boblogaeth fynediad 999 cyflymach i Adran Achosion Brys	9 munud yn hirach (ar gyfartaledd) Byddai gan 7% o'r boblogaeth fynediad 999 cyflymach i Adran Achosion Brys	6 munud yn hirach (ar gyfartaledd) Byddai gan 6% o'r boblogaeth fynediad 999 cyflymach i Adran Achosion Brys
Teithio mewn car: yn lle Glangwili (i aneddiadau gyda 1,000 neu fwy o breswylwyr)	13 munud yn hirach (ar gyfartaledd)	13 munud yn hirach (ar gyfartaledd)	7 munud yn hirach (ar gyfartaledd)
Teithio mewn car: yn lle Llwynhelyg (i aneddiadau gyda 1,000 neu fwy o breswylwyr)	12 munud yn hirach (ar gyfartaledd)	12 munud yn hirach (ar gyfartaledd)	14 munud yn hirach (ar gyfartaledd)
Mynediad ar y ffordd	Mynediad uniongyrchol o'r A40	Ar hyn o bryd, nid oes mynediad uniongyrchol, angen gwelliannau i ffyrdd lleol neu gyswllt priffordd newydd yn uniongyrchol o'r A40	Yn uniongyrchol o'r A40 a'r A477
Pellter o orsaf drenau	750m	250m	1000m (unwaith y bydd yr orsaf wedi'i hadfer)
Perchnogaeth tir	Tirfeddianwyr preifat lluosog	Perchnogaeth gyhoeddus	Un tirfeddiannwr preifat
Perygl llifogydd	Isel	Oes, ar ran fechan – ni fydd adeiladu ar yr ardaloedd yr effeithir arnynt	Na
Lle i ehangu yn y dyfodol	Cyfyngedig	Rhywfaint	Cyfyngedig
Cwmpas ar gyfer ynni adnewyddadwy (heb ei gostio)	Potensial oddi ar y safle	Potensial ar y safle	Potensial oddi ar y safle
Costau ychwanegol posibl (yn amodol ar chwyddiant)	£19.9m	£28.2m	£20.7m

Teithio a thrafnidiaeth

Rydym am ddod â gofal yn nes at eich cartref a lleihau teithio ar gyfer derbyniadau diangen i'r ysbyty neu arhosiadau hir. Rydym yn cynllunio buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau cymunedol yn nes at gartrefi pobl. Bydd hyn yn sicrhau y gallwch barhau i dderbyn eich gofal yn bennaf yn eich cartref a'ch cymunedau eich hun, neu o ysbytai mwy lleol.

Rydym hefyd yn datblygu Strategaeth Trafnidiaeth a Hygyrchedd. Bydd y strategaeth yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer trafndiaeth i'r ysbyty a'n gwasanaethau cymunedol a bydd yn ymdrin â materion fel trafndiaeth cleifion brys a chleifion nad ydynt yn rhai brys, trafndiaeth gyhoeddus a chymunedol, teithio gan staff, datgarboneiddio, meysydd parcio a darpariaeth taccis neu gludwyr.



Mynediad amserol mewn argyfwng

Rydyn ni'n gwybod bod rhai ohonoch chi'n bryderus iawn am fynediad prydlon at ofal mewn argyfwng. Mae 93% ohonoch o fewn amser teithio un awr mewn car i Adran Achosion Brys os bydd yr ysbyty newydd o fewn y parth rhwng ac yn cynnwys Arberth a Sanclêr, ac o ystyried Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth ac Ysbyty Treforys yn Abertawe.

Ymatebir i rai argyfyngau, megis damweiniau traffig ffyrdd difrifol, gan glinigwyr sy'n dod i'r lleoliad mewn cerbyd ffordd neu Ambiwylans Awyr, sef y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru). Mae gofal yn y man a'r lle yn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â theithio i ganolfan driniaeth. Rydym yn falch o fod wedi gweld y gwelliannau o ran mynediad i Ambiwylans Awyr Cymru, sydd wedi cynyddu i wasanaeth 24/7 ers mis Gorffennaf 2020.

Trwy'r Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd, bydd gennym hefyd uwch feddygon arbenigol ar gael wrth y drws blaen fel bod gennych fynediad cyflym atynt, a'r holl wasanaethau cymorth sydd eu hangen ar gyfer eich gofal.

Gallwch ddarllen rhagor o wybodaeth am amseroedd teithio i'r safleoedd drwy fynd i'n gwefan **bipdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd** yn yr adran Dogfennau Technegol. Gelwir yr adroddiad yn Ddadansoddiad Technegol Dewis Safle WAST ac mae'n rhan o sawl adroddiad a gafodd eu cynnwys yn Adroddiadau'r Bwrdd Cyhoeddus ar 4 Awst 2022. Mae'n cynnwys dadansoddiad o amseroedd teithio presennol fesul gwahanol drafndiaeth, gan gynnwys llwybrau bysiau a threnau, yn ogystal â cheir a chludiant brys.



Trafnidiaeth a theithio mewn achosion nad ydynt yn rhai brys

Nod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 gan Lywodraeth Cymru yw annog pobl i newid eu hymddygiad teithio er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o deithio cynaliadwy, carbon isel. Mae hyn yn cynnwys gwneud dewisiadau amgen i deithio mewn car, megis cerdded a beicio, a thrafnidiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol, yn haws i'w defnyddio ac yn fwy fforddiadwy.


Gwyddom y bydd hyn yn anodd i bobl sy'n byw ymhellach i ffwrdd o'r ysbyty, neu pan fydd angen gofal brys ar rywun, neu pan na fyddant yn gallu ystyried opsiynau amgen am resymau eraill. Fodd bynnag, yn unol â pholisi cenedlaethol, rydym yn datblygu ein Hysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd gyda theithio llesol yn flaenoriaeth.

Mae hyn yn golygu ein bod am ei gwneud mor hawdd â phosibl, ac annog pawb sy'n gallu, i gerdded neu feicio i'r ysbyty. Rydym hefyd am gefnogi trafndiaeth gyhoeddus dros drafnidiaeth

mewn car, felly byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill i wella trafndiaeth gyhoeddus i safle'r ysbyty. Rydym yn cydnabod y bydd angen cludiant mewn car ar rai pobl, a bod angen digon o le i barcio ar gyfer y cleifion, y staff a'r ymwelwyr hynny sydd angen teithio mewn car.

Bydd ein Strategaeth Trafnidiaeth a Hygyrchedd yn cytuno ar weledigaeth ar gyfer cyfleoedd system drafnidiaeth ar draws ardal Hywel Dda, yn ogystal â model trafndiaeth i wasanaethu'r ysbyty newydd.





Cydraddoldeb ac effeithiau iechyd

Bydd newid gwasanaethau iechyd a gofal yn effeithio ar bob un ohonom sy'n byw yn ardal Hywel Dda waeth beth fo'n hoedran, rhyw, anabledd (corfforol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu), hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

Rhaid inni sicrhau bod ein cynigion yn deg i bawb a chymryd gofal arbennig i ystyried pobl sy'n agored i niwed. Rydym eisoes wedi ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl agored i niwed a byddwn yn parhau i wneud hynny i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys drwy gydol ein hymgyngoriad.

Rydym wedi cynhyrchu'r hyn a elwir yn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd ar gyfer ein Hachos Busnes Rhaglen gyfan, sy'n cynnwys darparu ein Hysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd.

Mae'r Asesiad yn cynnwys trosolwg o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar bobl, a sut y byddwn yn eu lliniaru ac yn mynd i'r afael â'n dyletswyddau cydraddoldeb. Defnyddir y ddogfen i helpu penderfynwyr wrth ystyried datblygiadau yn y dyfodol.

Bydd y ddogfen yn cael ei diweddarau'n barhaus wrth i ni ddysgu mwy ac mae ar gael yn llawn trwy ymweld â'n tudalennau gwe ymgynghoriad safle o dan Dogfennau Technegol. Os hoffech wybodaeth fanylach, cysylltwch â:

hyweldda.engagement@wales.nhs.uk

► Teulu Jones

Ben

Mae Ben yn dair oed ac yn byw gyda'i fam Lianne, a Mamgu a Tadcu yn y Tymbl, ger Llanelli. Mae Ben ar wyliau yn Wdig, Sir Benfro, pan mae'n llithro ar y grisiau wrth grancota. Mae ganddo bwmp bach i'w ben a'r croen wedi agor uwch ei lygad.

Ar hyn o bryd, oherwydd y mân anaf, byddai Ben yn cael ei gludo i Ysbyty Llwynhelyg, Hwlfordd. Pe bai angen iddo aros dros nos, byddai'n cael ei drosglwyddo i Ysbyty Glangwili. Gall meddygon benderfynu ei gadw i mewn dros nos rhag ofn iddo ddirywio. Mae'n bosibl y caiff ei ryddhau drannoeth a byddai unrhyw apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, sydd tua 20 munud i ffwrdd mewn car.

Pan fydd Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd yn ei le, byddai Ben yn cael ei gludo i Ysbyty Cymunedol Llwynhelyg i gael triniaeth. Pe bai meddygon yn teimlo bod angen aros dros nos arno rhag ofn y byddai'n dirywio, byddent yn ei drosglwyddo i'r ysbyty newydd. Efallai y caiff ei ryddhau drannoeth. Byddai apwyntiad claf allanol dilynol mewn cyfleuster iechyd a gofal cymunedol yn agos at ei gartref ger Llanelli, gan arbed amser, teithio a chost.



Sut byddai hyn yn cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol?

Mae ein huchelgais i gyflawni Canolbarth a Gorllewin Cymru iachach, a chyflawni drwy ein Hachos Busnes Rhaglen, yn rhan o'n hymateb i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ym mhob cam, rydym yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau, a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tloedi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Un esiampl yw ein Cynllun Cyflawni Datgarboneiddio a fydd yn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i GIG Cymru gyfrannu at darged sero net ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan erbyn 2030. Ein nod yw lleihau ein hól troed carbon 34% erbyn 2030.

Bydd dyluniad yr Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd a chyfleusterau cymunedol eraill hefyd yn dilyn egwyddorion dylunio bioffilig. Mae'n golygu bod ein hadeiladau a'r ardaloedd cyfagos yn adlewyrchu ein hamgylchedd naturiol – nid yn unig yng ngerddi'r ysbyty newydd, ond o fewn y wardiau, swyddfeydd a choridorau. Gall manteision dylunio bioffilig gynnwys amgylchedd tawelach i staff, cleifion a'u teuluoedd, mwy o greadigrwydd, cynhyrchiant, a llai o straen, llai o amser adfer ar ôl llawdriniaeth a llai o ddefnydd o feddyginiaeth.



**Cymru
lewyrchus**



**Cymru
gydnerth**



**Cymru sy'n gyfrifol
ar lefel fyd-eang**



**Cymru â diwylliant
bywiog lle mae'r
Gymraeg yn ffynnu**



Cymru iachach



**Cymru sy'n
fwy cyfartal**



**Cymru o
gymunedau
cydlynus**

Beth nesaf

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 23 Chwefror 2023 tan 19 Mai 2023, felly mae angen i chi ddweud eich dweud erbyn 19 Mai, fel y gellir cynnwys eich barn. Trowch at dudalen 4 y ddogfen hon i weld sut mae cymryd rhan.



Eich adborth a datganiad preifatrwydd

Rydym wedi contractio sefydliad ymchwil annibynnol Opinion Research Services (ORS) i gasglu a dadansoddi'r holl adborth a ddaw i law fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ar y cyd â nhw, rydym yn casglu eich adborth fel y gallwn ddefnyddio eich barn i'n helpu i wneud penderfyniadau am safle ar gyfer Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd. Gallwch weld y datganiad preifatrwydd yn llawn ar ein gwefan biphdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd a chwilio am 'datganiad preifatrwydd yr ymgynghoriad'.

Rydym yn gwrando

Rydym ni'n gwybod ei bod hi'n bwysig eich diwedddaru chi, yn enwedig pan fyddwch chi wedi cymryd yr amser i rannu eich barn â ni.

Bydd yr adroddiad allbwn yn cael ei gyhoeddi, ei ystyried yn llawn, a'i drafod fel rhan o gyfarfod penodol y Bwrdd Iechyd a gynhelir tua diwedd haf 2023 mae'n debyg.

Ymunwch â'n cronfa ddata aelodaeth Siarad Iechyd/Talking Health drwy e-bostio Hyweldda.Engagement@wales.nhs.uk, ffonio **0300 303 8322** (pris galwad leol), neu ysgrifennu atom yn:

Opinion Research Services, FREEPOST SS1018, PO Box 530, Swansea, SA1 1ZL

os hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf ar yr hyn sy'n digwydd ac ar benderfyniadau.





Diolch yn fawr | Thank you
